# Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)-08-08 (p.3): 4 Mehefin 2008

**Ymchwiliad i faterion yn effeithio ar weithwyr mudol yng Nghymru**
**Cyflwyniad gan gwmnïau Gyrfa Cymru**

### Diben

Paratowyd y papur hwn ar y cyd gan chwe chwmni Gyrfa Cymru yn dilyn cais i gyfrannu tystiolaeth i ymchwiliad gan Bwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar "weithwyr mudol, eu teuluoedd a'r cymunedau y gweithiant ynddynt."

### Cefndir

Gyrfa Cymru yw'r brand cenedlaethol ar gyfer chwe chwmni rhanbarthol sy'n darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad di-dâl a diduedd ar yrfaoedd a dysgu a chyflogaeth i bobl ifanc ac oedolion. Mae gan y cwmnïau hefyd rôl allweddol wrth hwyluso cysylltiadau rhwng addysg a busnes i helpu pobl ifanc i gael gwybodaeth am a pharatoi ar gyfer byd gwaith. Mae ein gwaith yn cyfrannu at Agenda Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n annog pobl o bob cefndir i gymryd rhan mewn dysgu, sgiliau a datblygu gyrfa. Mae gweithio mewn partneriaeth gydag amrediad eang o sefydliadau a datblygu rhaglenni i annog cynhwysiant cymdeithasol yn elfennau hanfodol o'n gwaith.

Canfu cwmnïau gyrfaoedd ei bod yn anodd cael amcangyfrifon o'r nifer o weithwyr mudol a'u teuluoedd sy'n setlo yng Nghymru gan yr ymddengys mai dim ond drwy ddulliau anuniongyrchol y mae'r wybodaeth ar gael. Er enghraifft, mae'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr yn rhoi arwydd o dueddiadau mewn Awdurdodau Unedol ond ni all roi gwybodaeth am deuluoedd cleientiaid neu allfudiad pobl sy'n cofrestru i ddechrau ac yna'n dychwelyd i'r gwledydd y daethant ohonynt. Mae rhai Awdurdodau Unedol wedi amcangyfrif symudiad pobl i'w hardal ond nid oes dulliau ffurfiol ar gyfer rhannu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd.

Mae pob cwmni gyrfa wedi dweud eu bod yn gweithio gyda gweithwyr mudol a'u teuluoedd ac ar hyn o bryd caiff y gwaith hwn ei drin o fewn cyllidebau presennol. Bu mudo gweddol sylweddol i rai ardaloedd. Yn Llanelli, er enghraifft,  amcangyfrifir bod 2,000 o bobl o Wlad Pwyl yn byw yn yr ardal er mai dim ond cyfran fechan ohonynt sydd wedi ymweld â'r ganolfan gyrfaoedd leol yn y dref. Yng Ngwent, mae stiwdio BBC Cymru drws nesaf i Ganolfan Gyrfaoedd Casnewydd ac mae gweithwyr mudol yn aml yn defnyddio'r lleoliad hwn i gael mynediad i'r rhyngrwyd. Mae staff y BBC wedi awgrymu fod cleientiaid yn ymweld â'r ganolfan gyrfaoedd i gael cyngor a gwybodaeth am yrfaoedd ac yn neilltuol help wrth lenwi CVs. Fel canlyniad mae'r ganolfan wedi gweld nifer fawr o gleientiaid o'r gwledydd diweddaraf i ymuno â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'n anodd canfod union nifer y gweithwyr mudol a'u teuluoedd sy'n cyrchu gwasanaethau a gynigir gan Gyrfa Cymru na'r gwledydd y maent yn tarddu ohonynt gan nad yw'r systemau rheoli gwybodaeth presennol wedi eu trefnu i roi'r wybodaeth ac nid yw'r strwythur adroddiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn am y dadansoddiad hwn. Ar hyn o bryd cofnodwn darddiad ethnig cleient ond nid eu dinasyddiaeth. Er enghraifft, dosberthir tarddiad ethnig ar gyfer cleient o wlad Pwyl fel "Gwyn - Arall" neu "Gwyn - Ewropeaidd". Mae'r dosbarthiad "Gwyn - Arall" hefyd yn debygol o fod yr un fath â phe bai'r cleient wedi dod o Awstralia a medrai "Gwyn - Ewropeaidd" gynnwys unigolion o Wlad yr Iâ i Wlad Groeg. Fodd bynnag, gall y rhan fwyaf o gwmnïau Gyrfa Cymru roi adroddiad ar iaith gyntaf cleientiaid sy'n derbyn gwasanaeth. Mae'r tabl dilynol, er enghraifft, yn rhoi dadansoddiad o iaith gyntaf oedolion a

gyrchodd wasanaethau a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin yn y flwyddyn 1 Ebrill 2007 - 31 Mawrth 2008:

| | |
|---|---|
| Abrabeg | 3 |
| Bengaleg | 6 |
| Cymraeg | 2,662 |
| Daneg | 2 |
| Hindi | 1 |
| Ieithoedd eraill | 2 |
| Iseldireg | 1 |

| | |
|---|---|
| Koreaidd | 1 |
| Portiwgaleg | 6 |
| Pwyleg | 9 |
| Saesneg | 5,687 |
| Sbaeneg | 2 |
| Swahili | 2 |
| Tagalog (Ynysoedd y Phillipine) | 9 |
| Tsieiëeg | 11 |
| Tyrceg | 3 |
| Walloon (Gwlad Belg) | 1 |
| **Cyfanswm** | **8,408** |

Yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg am yr un cyfnod, cyrchodd 509 o oedolion gyda chyfanswm o 37 o ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt wasanaethau arweiniad gan y cwmni. Yn ychwanegol o fis Gorffennaf 2007, cofnododd Canolfan Gyrfaoedd Caerdydd gyfanswm o 97 o ymholiadau gan oedolion o wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd yn ymweld â'r ganolfan i holi am swyddi gwag. Roedd 78 o'r ymwelwyr hyn o Wlad Pwyl.

Mae'n hysbys fod mwyafrif y gweithwyr mudol yng Nghymru yn tueddu i fod yn oedolion ifanc. Gall fod nad yw rhai gyda theuluoedd wedi dod â'u plant gyda hwy, neu os ydynt, mae'r plant hyn fel arfer yn oedran ysgol gynradd. Ni wyddys faint o'r teuluoedd hyn fydd yn aros yng Nghymru yn y dyfodol rhagweladwy ond mae'n bosibl y bydd cynnydd graddol yn y galw am wasanaethau Gyrfa Cymru gan blant gweithwyr mudol wrth iddynt symud ymlaen i'r ysgol uwchradd. Yn Llanelli, mae'r ysgol uwchradd Babyddol leol wedi gweld nifer resymol o blant o weithwyr mudol gyda 50 o blant yn cofrestru yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r plant hyn yn dechrau dod i gysylltiad â gweithgareddau Gyrfa Cymru er mai cymharol ychydig sydd wedi cyrraedd Blwyddyn 11 hyd yma. Mae'r ysgol wedi penodi gweithwyr cefnogaeth sy'n siarad Pwyleg i hybu dysgu Saesneg a Chymraeg.

Ym Morgannwg Ganol a Phowys, bu hefyd gynnydd yn nifer y plant nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Mae 200 o blant yn y categori hwn yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn unig. Mae ysgolion Pabyddol yn yr ardal wedi gweld cynnydd yn nifer y plant o gefndir Pwyleg neu Filipino. Yng Nghaerdydd, caiff plant oedran ysgol uwchradd sydd ag iaith gyntaf heblaw Cymraeg neu Saesneg eu lleoli gyda'r Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS) yn Ysgol Uwchradd Fitzalan ac Ysgol Uwchradd Cathays yn y ddinas. Yno maent yn medru datblygu eu sgiliau iaith a chael mynediad i'r Cwricwlwm Cenedlaethol nes y medrir eu hintegreiddio'n llwyr i addysg brif ffrwd. Mae'r cynghorwyr gyrfaoedd cyswllt ar gyfer yr ysgolion yn defnyddio dehonglwyr EMAS i siarad gyda phobl ifanc yn yr uned am eu syniadau gyrfaoedd. Caiff cymheiriaid eu defnyddio fel dehonglwyr weithiau hefyd. Y camau nesaf yn nhermau cynllunio gyrfa ar gyfer llawer o'r myfyrwyr fydd gwella eu Saesneg a byddant yn aml yn aros gyda EMAS i gael cefnogaeth bellach neu symud i ddarpariaeth ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill) leol yng Ngholeg Glan Hafren, y coleg addysg bellach lleol, os ydynt dros 16 oed.

Mae goblygiadau adnoddau i weithio mewn ysgol sy'n bwynt mynediad cyntaf i fyfyrwyr heb fawr neu ddim Saesneg. Mae cynghorwyr gyrfaoedd sy'n gysylltiedig ag unedau EMAS yng Nghaerdydd, er enghraifft, yn gorfod addasu deunyddiau gwaith grwp a fwriadwyd ar gyfer myfyrwyr prif ffrwd ac yn tueddu i weld myfyrwyr yn yr unedau dair neu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn o gymharu â gweld myfyrwyr prif ffrwd unwaith y flwyddyn yn unig. Mae cyfweliadau gyrfa drwy ddehonglwyr yn cymryd mwy o amser gyda'r cleient yn ceisio esbonio eu hanghenion yn llawn a'r cynghorydd gyrfaoedd yn cymryd amser i ateb i sicrhau eu bod yn cael eu deall yn iawn. Weithiau mae angen esbonio pethau mewn sawl gwahanol ffordd. Gall fod nad oes gan fyfyrwyr unrhyw ffrâm cyfeirio cyd-destunol; mae'r system addysg yn wahanol i'w mamwlad a medrant fod angen esboniad manwl o'r fframwaith cymwysterau a dilyniant gyrfa.

Yn ychwanegol at bobl ifanc mewn addysg amser llawn, mae cwmnïau gyrfaoedd hefyd yn ceisio sicrhau fod rhieni'n derbyn gwybodaeth yn eu dewis iaith. Yng Nghaerdydd mae tua 604 o bobl ifanc mewn ysgol uwchradd neu sydd wedi gadael addysg lawn-amser a dan 18

oed a gyrchodd wasanaethau wedi dweud nad y Gymraeg na'r Saesneg yw'r iaith gyntaf a siaredir adref gyda chyfanswm o 28 o wahanol ieithoedd yn cael eu siarad. Mae gan bob cwmni gyrfa fynediad i gyfieithwyr proffesiynol i gyfieithu deunyddiau ysgrifenedig fel bo angen. Yng Nghaerdydd, er enghraifft, caiff llenyddiaeth ei hanfon i rieni myfyrwyr ym Mlynyddoedd 9, 10, 11, 12 a 13 a medrir gofyn amdani mewn pedair iaith lleiafrif ethnig yn cynnwys Bengaleg, Gujerati, Somalieg ac Urdu. Cytunir hefyd i geisiadau am gyfieithu i ieithoedd eraill lle mae'r gyllideb yn caniatáu. Caiff Cynlluniau Symud Ymlaen a gynhyrchir gan gynghorwyr gyrfaoedd i grynhoi syniadau gyrfa person ifanc ynghyd â chyngor ac arweiniad oll eu cynhyrchu yn iaith gyntaf y cartref os yw'r person ifanc yn dymuno i gopi gael ei anfon at eu rhieni/gofalwyr.

Yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, cysylltir â phobl ifanc a'u rhieni sy'n dweud nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf cyn iddynt gychwyn Blwyddyn 11 i holi os ydynt angen gwasanaethau cyfieithu neu ddehongli i'w galluogi i gael mynediad i'w hawl i wybodaeth, cyngor ac arweiniad. Mae'r cwmni'n defnyddio dehonglwyr yn yr ysgol i gynorthwyo dealltwriaeth yn y cyfweliad arweiniad. Yn ystod cyfnod 1 Ebrill 2007 - 31 Mawrth 2008 cynhyrchodd Gyrfa Cymru Gogledd Ddwyrain wyth Cynllun Symud Ymlaen mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg ar gyfer pobl ifanc o deuluoedd mudol, gyda chost cyfieithu tua £100 fesul cynllun.

Ym Morgannwg Ganol a Phowys mae'r rhan fwyaf o geisiadau am gyfieithu cynlluniau Symud Ymlaen ar gyfer cyfieithu i'r Bwyleg a Phortiwgaleg.

Yng Ngogledd Orllewin Cymru, mae Gyrfa Cymru wedi cyfieithu taflen wybodaeth y cwmni i chwe iaith leiafrifol yn unol â'r data ystadegol a gafwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru. Mae'r ieithoedd yn cynnwys Urdu, Bengaleg, Arabeg, Tsieinëeg, Pwyleg a Phortiwgaleg.

Mae cynghorwyr gyrfaoedd sy'n gweithio mewn colegau addysg bellach hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc ac oedolion sydd wedi symud i Gymru. Siaredir llawer o ieithoedd yng Ngholeg Glan Hafren yng Nghaerdydd, er enghraifft, er mai Urdu, Punjabeg, Bengaleg, Somalieg, Arabeg, Farsi a Ffrangeg yw'r mwyaf cyffredin gyda chynnydd mewn Pwyleg, Tsiecec a Slofaceg. Bydd y myfyrwyr hyn yn cael mynediad i wasanaethau'r cwmni gyrfaoedd drwy fynychu sesiynau grwp gyda chynghorydd gyrfaoedd yn y coleg. Medrant hefyd gael eu hatgyfeirio at gynghorydd gan diwtor coleg neu Swyddfa Ryngwladol y Coleg. Cânt eu hatgyfeirio gan ffrindiau weithiau. Mae'r myfyrwyr hynny heb fawr o Saesneg yn dilyn cyrsiau ESOL. Mae hefyd fyfyrwyr sy'n dilyn cwrs Saesneg ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol (EIS). Mae'r myfyrwyr olaf hyn yn tueddu i fod yn fyfyrwyr sydd wedi graddio gyda chymwysterau uwch yn eu mamwledydd ac yn mynychu'r coleg i wella eu Saesneg. Mae llawer ohonynt hefyd mewn gwaith llawn-amser neu ran-amser er fel arfer heb fod mewn swyddi sy'n gymesur â'u cymwysterau oherwydd eu diffyg Saesneg.

Mae Coleg Llandrillo yng Ngogledd Orllewin Cymru wedi sefydlu cwrs dan deitl BRITS (Cynllun Hyfforddiant Gwybodaeth Ranbarthol Brydeinig) a anelwyd yn benodol at weithwyr o dramor. Diben y cwrs yw cynorthwyo gweithwyr yn y diwydiannau lletygarwch a thwristiaeth yng Ngogledd Iwerddon i setlo i amgylchedd gwaith a byw newydd.

Dywedodd pob cwmni gyrfa iddynt weld cynnydd yn nifer yr oedolion sydd â'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt sy'n cyrchu gwasanaethau gyrfaoedd. Mae rhai cwmnïau yn tanysgrifio i'r Llinell Iaith sy'n darparu gwasanaethau dehongli dros y ffôn i helpu cynghorwyr i gyfathrebu gyda chleientiaid prin eu Saesneg. Mae hyn yn galluogi cynghorwyr i gynnal sgyrsiau gyda chleientiaid pan alwant heibio canolfannau gyrfaoedd. Mae cwmnïau eraill yn gwneud trefniadau ar gyfer dehonglwyr lleol i fynychu cyfweliadau. Caiff galwyr i linell gyngor learndirect, a gaiff ei rheoli yng Nghymru gan Gyrfa Cymru, eu cyfeirio at learndirect yn Lloegr lle mae llinellau ar gael i unigolion i siarad gyda chynghorwyr mewn wyth iaith wahanol yn cynnwys Gujerateg, Punjabi, Somalieg, Syletieg, Urdu, Farsi, Pwyleg a Ffrangeg. Medrant hefyd gael eu cyfeirio at gwmnïau gyrfa lleol i gael cymorth. Ychydig iawn o bobl a gaiff eu cyfeirio gan y llinell gyngor i'r gwasanaethau hyn.

Yn ogystal â darparu gwasanaethau mewn canolfannau gyrfaoedd, mae cynghorwyr ledled Cymru hefyd yn ymweld â chanolfannau allgymorth megis canolfannau cymunedol a menter â Chanolfannau Byd Gwaith i sicrhau fod gwasanaethau yn hygyrch i bob adran o'r gymuned. Mae gweithio partneriaeth gyda sefydliadau lleol yn hanfodol i'n gwaith. Yng Nghaerdydd, er enghraifft, mae Gyrfa Cymru wedi ymdrechu i rwydweithio gyda'r gymuned Bwylaidd yn y ddinas. Mae cynghorwyr wedi mynychu cyfarfodydd yn y Ty Pwylaidd (Dom Polanski) i roi gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael. Mae'r Ty Pwylaidd yn fan cyfarfod yng Nghaerdydd lle gall aelodau o'r gymuned Bwylaidd gwrdd a chael cefnogaeth anffurfiol i helpu newydd-ddyfodiaid i setlo. Datblygwyd cysylltiadau cryf hefyd gyda staff Pwylaidd o Race Equality First sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda gweithwyr mudol. Yn Llanelli, mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Ganolfan Gynghori Bwylaidd i helpu gweithwyr mudol i baratoi CVs a ffurflenni cais sy'n cyd-fynd yn agosach gyda disgwyliadau cyflogwyr lleol. Ym Morgannwg Ganol a Phowys, mae gan Gyrfa Cymru gysylltiadau cryf gyda Chyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd (VALREC) ac yng Ngwent mae'r cwmni gyrfaoedd wedi datblygu partneriaethau gyda nifer o asiantaethau sy'n gweithio yng Nghasnewydd lle mae gweithwyr du a lleiafrif ethnig a gweithwyr mudol yn byw i alluogi unigolion i gael mynediad i wasanaethau.

Mae Gyrfa Cymru hefyd yn darparu gwasanaethau drwy www.gyrfacymru.com. Yn ystod cyfnod 1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2008, cofnodwyd 3,411 ymweliad i wefan Gyrfa Cymru o wledydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd allan o gyfanswm o 12,917 ymweliad o wledydd ledled y byd ac eithrio'r Deyrnas Unedig.

Dywedodd cwmnïau gyrfa ym mhob rhan o Gymru fod darpariaeth ESOL yn gyfyngedig yn eu hardal ac y gall rhwystrau iaith lesteirio cynnydd gweithwyr mudol wrth gyrchu gwasanaethau. Mewn rhai achosion mae'n hysbys fod rhai wedi mynychu cyrsiau Sgiliau Sylfaenol er mwyn cael sgiliau yn y Saesneg yn hytrach na disgwyl i gyrsiau ESOL ddod ar gael.

Ein profiad ni yw bod llawer o weithwyr mudol yn cymryd swyddi sgil isel ar gyflog isel a all fod yn waith tymhorol neu dros-dro. Mae gweithwyr mudol i'w cael yn y diwydiant arlwyo a lletygarwch, y sectorau twristiaeth a hamdden, amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu, prosesu bwyd, warysau, adwerthu a'r sector gofal. Mae'r sectorau hyn yn profi prinder llafur a sgiliau oherwydd tybiaethau am waith llafuriol am gyflog isel, yn cynnwys oriau anghymdeithasol ac yn cynnig cyfleoedd rhan-amser neu dros dro yn unig. Mae peth tystiolaeth anecdotaidd fod gweithwyr mudol mewn rhai achosion yn cymryd swyddi a gynigiwyd yn flaenorol i oedolion gyda sgiliau isel

neu economaidd anweithgar. Fodd bynnag nid yw bob amser yn glir os byddai'r boblogaeth leol wedi cymryd y swyddi a gynigiwyd yn y lle cyntaf. Mae rhai cyflogwyr wedi cael anhawster recriwtio staff yn y gorffennol ac wedi troi at recriwtio gweithwyr mudol i lenwi'r bylchau hyn. Mae llawer o'r prif gyflogwyr yng Ngwynedd ac Ynys Môn, er enghraifft, yn cyflogi gweithwyr mudol ac yn gyffredinol fodlon gyda'r staff y maent wedi'u recriwtio gan eu bod yn frwd i weithio, yn mynd i'w gwaith yn brydlon ac yn awyddus i weithio'n galed i gynnal eu teuluoedd yn eu mamwledydd.

Mae rhai cyflogwyr yng Nghymru yn darparu llety i weithwyr mudol. Er enghraifft, mae un parc gwyliau adnabyddus yng Ngwynedd yn darparu llety ar y safle i'w nifer fawr o weithwyr mudol. Byddai'n ymddangos mewn rhai achosion nad oes angen i weithwyr mudol gyrchu sefydliadau cefnogaeth i ganfod tai neu gyflogaeth gan ei bod yn debygol y trefnwyd hyn cyn iddynt adael am Brydain. Yng Ngogledd Orllewin Cymru, er enghraifft, nid yw rhai cyflogwyr yn hysbysebu swyddi gwag yn lleol ond bydd ganddynt bob amser nifer o weithwyr mudol yn gweithio iddynt am rai misoedd gyda llety wedi'i ddarparu ac wedyn yn dychwelyd i'w mamwledydd gyda grwp arall o weithwyr yn cyrraedd i greu cyflenwad parhaus o lafur parod.

Ein profiad ni yw bod gan rai gweithwyr mudol gymwysterau uchel a sgiliau uchel ac yn aml yn meddu ar amrediad o gymwysterau. Yn aml mae'r cymhwyster cyfwerth yng Nghymru yn y Deyrnas Unedig yn is, er enghraifft, medrai Gradd Meistr yn eu gwlad eu hunain fod yn cyfateb i Ddiploma Genedlaethol Uwch yn y Deyrnas Unedig. Er bod ein gwybodaeth yn anecdotaidd braidd, mae arwyddion fodd bynnag fod nifer sylweddol o weithwyr mudol yn dod i Gymru gyda chymwysterau uwch na NVQ Lefel 3 neu gyfwerth. Soniant yn neilltuol am ddiffyg cyrsiau ESOL i roi geirfa broffesiynol a thechnegol. Unwaith y bydd eu Saesneg wedi gwella, bydd y gweithwyr hyn wedyn yn edrych am symud i feysydd gwaith yn gysylltiedig â'u sgiliau a'u profiad, cael mynediad i swyddi gweinyddol ac mewn canolfannau galw er enghraifft yng Nghaerdydd. Gall cwmnïau gyrfaoedd help drwy gyrchu cronfa ddata NARIC sy'n cymharu cymwysterau academaidd a galwedigaethol ym mhob rhan o'r byd. Fel arfer tybir fod perfformiad gweithwyr mudol yn cymharu'n dda iawn gyda gweithwyr o'r wlad ei hunan.

Mewn rhai achosion mae cwmnïau gyrfaoedd wedi medru lleoli gweithwyr mudol mewn cyflogaeth. Yng Nghaerdydd, er enghraifft, atgyfeiriodd Race Equality First berson ifanc i ganolfan gyrfaoedd Caerdydd. Gyda chefnogaeth gan y ganolfan gyrfaoedd, gwnaeth gais am gyfle gyda chyflogydd lleol a hysbysebwyd yn y Ganolfan a bu'n llwyddiannus gyda'i chais.

Yng Ngwent, mae'r cwmni gyrfaoedd wedi helpu gweithwyr mudol sy'n wynebu dileu eu swyddi. Dynodwyd fod angen hyfforddiant ychwanegol yn Saesneg ar gyfer rhai gweithwyr mudol yr oedd eu swyddi'n cael eu dileu yn LG Electronics yng Nghasnewydd er mwyn eu helpu i gael swyddi eraill. Daethpwyd â Choleg Gwent i mewn i ddarparu cwrs yn canolbwyntio ar ddatblygu Saesneg cysylltiedig â'r gweithle.

## Argymhellion

Byddai Gyrfa Cymru'n croesawu gwybodaeth fanylach am yr union nifer o weithwyr mudol a'u teuluoedd ledled Cymru. Er bod hyn yn anodd ei gael, byddai'r wybodaeth hon yn helpu cwmnïau gyrfaoedd i gynllunio eu darpariaeth yn ôl y lefel angen am wasanaethau gyrfaoedd yn eu hardaloedd. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi ystyriaeth i hyn wrth gynllunio cyllidebau.

Dylai gwybodaeth am hawliau gweithwyr mudol a'r gwasanaethau sydd ar gael i'w cefnogi fod ar gael yn rhwyddach i'r rhai sy'n gweithio gyda'r grwp hwn yn ogystal ag i'r gweithwyr mudol eu hunain.

Dylid gwella mynediad i hyfforddiant iaith Saesneg ar gyfer oedolion a phynciau eraill cysylltiedig â gwaith megis Technoleg Gwybodaeth, gan sicrhau fod darpariaeth ar gael drwy'r flwyddyn yn hytrach na'i glymu i'r flwyddyn academaidd. Dylai darpariaeth iaith Saesneg ar gyfer gweithwyr mudol hefyd fod ar gael yn y gweithle gan rai cyflogwyr.

Dylid datblygu partneriaethau rhwng sefydliadau perthnasol sy'n ymwneud â chefnogi gweithwyr mudol ymhellach er mwyn sicrhau dull cydlynol o gefnogi gweithwyr mudol a'u teuluoedd.

Dylid ystyried cynlluniau i integreiddio'r boblogaeth gynnal a'r boblogaeth fudol.

Bydd cwmnïau gyrfaoedd yn adolygu eu polisïau cyfle cyfartal i sicrhau y gall gweithwyr mudol a'u teuluoedd gyrchu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd, addysg a hyfforddiant. Gyda chyllideb sydd wedi aros yn ei hunfan am y tair blynedd ddiwethaf, bydd hyn yn dodi pwysau cynyddol ar feysydd gwasanaeth eraill.

Bydd Gyrfa Cymru yn parhau i ddarparu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o'r gwahaniaethau diwylliannol a'r rhwystrau a gaiff eu profi'n aml gan bobl o gymunedau amrywiol.